

Dyma'r
Gwalchwyfyn yr
Helygys. Mae'n casglu
neithdar oddi ar flodau yn ystod
y nos, gan gynnwys oddi ar
Driaglog Pyreneaid a
gwyddfifid.

PROFIADAU O FYWYD GWYLLT Y NOS

Mae'r parc yn lle gwych i grwydro yn ystod y dydd, gwneud pob math o bethau a chael hwyl beth bynnag fo'r tywydd. Ond, os byddwch yn aros gyda ni dros nos, mae yna fyd hollol newydd o antur yn agor o'ch blaen wrth i anifeiliaid y nos ddod allan. Trochwch eich hunan a'ch teulu yn ngolwg a sw'n natur y nos a chael profiad o fod yn dditectif anifeiliaid y byddwch yn ei gofio am byth.

Mae'r Bannau'n gartref i beth wmbredd o adar, pryfed, amffibiaid a mamaliaid sy'n caru'r tywyllwch, diolch i amrywiaeth ein cynefinoedd. Mae yna gymaint o lefydd i ganfod beth sy'n digwydd yn ein parc yn ystod y nos - dyma ddim ond ychydig i chi i ddechrau.

1. Llyn Llangors

Mae Llyn Llangors yn lle arbennig iawn i weld bywyd gwylt y nos. Fel llyn naturiol mwyaf de Cymru, mae'n gyfoethog o fioamrywiaeth ac mae adar mudo yn heidio yno yn y gwanwyn a'r hydref. Yn yr haf, mae'n byrlymu o bryfed, gwas y neidr, mursennod ac ieir bach yr haf.

Mae yna amrywiaeth anferth yma o fywyd gwylt i'w ddilyn, i'w ganfod, i'w weld, i'w glywed a'i arogl. Efallai y byddwch hyd yn oed yn ddigon lwcus i weld tylluan swil. Ceisiwch glywed y gwahaniaeth yn eu galwadau, yn enwedig rhwng rhywogaethau. Er enghraifft, mae'r dylluan frech yn enwog am ei 't'wit-t'whw' ond sgrechian mae'r dylluan wen.

Dewch i Langors wrth iddi nosi a byddwch yn debyg o weld elyrc'h yn codi ehediad ac yn glanio, gyda'u hadenydd cryfion yn curo yn erbyn yr aer. O fis Medi ac ymlaen i'r gaeaf, mae yna heidiau anferth o ddurdwy yn codi ac yn glanio ar Gomin Llangors. Mae'n olygfa heb ei hail, ac mae sw'n yr adar wrth iddyn nhw alw a bwyta wrth ehedeg yn anhygoel.

Mae ystumod hefyd yn bwydo dros ddŵr y llyn a'r caeau cyfagos, gan gynnwys yr ystum pedol lleiaf, sydd â gwarchodaeth Ewropeaidd. Cadwch lygad am ystumod Llangors wrth iddyn nhw hela pryfed, gan ehedeg yn gyflym ac weithiau'n isel. Gyda chanfodydd ystumod, gallwch glywed eu trydar wrth iddyn nhw ddefnyddio eu gallu i ecoleoli wrth blymio a gwibio drwy dywyllwch y nos. Nid yw canfodydd syml yn ddud ac mae'n werth ei gael.

Daw gwyfynod allan yn y nos hefyd, gan gynnwys Gwalchwyfynod lliwgar a disglair sydd i'w gweld yn casglu neithdar ymysg y blodau. Mae llawer iawn o flodau gwylt ger Llyn Llangors, a sawl math o wyfynod yn manteisio arnyn nhw i gasglu bwyd. Ac mae rhai planhigion hefyd wedi addasu i gael eu peillio gan wahanol rywogaethau o wyfynod.

Mae gwyfynod yn cael eu denu gan oleuni, dyna pam eu bod i'w gweld ger ffenestri a thannau gwersylloedd. Mae eu hamrywiaeth o liwiau a meintiau'n rhyfeddol - pam na ddechrau chi draw i achlysur casglu gwyfynod neu gynnal eich noswaith casglu gwyfynod eich hunan gyda thortsh?

GWYCH AM:

wylio adar gydol y flwyddyn,
gweision neidr, elyrc'h ac efallai hyd
yn oed ddyfrgi

PENTREF AGOSAF:

Llangors

I GANFOD RHAGOR:

www.breconbeacons.org/poi/town-village-llangorse

BANNAU BRYCHEINIOG

EIN PARC CENEDLAETHOL

Ychydig cyn iddi nosi, bydd heidiau bychan o ddrudry o'r un ardal yn dod at ei gilydd uwchben ardal glywdo gymunedol.

Llawer o bethau hwyliog eraill i'w gwneud ar Lyn Llangors...

- o Llogi caiaic, canŵ Canada, pedalo neu fwrdd sefyll i badlo a mentro i ganol Llyn Llangors.
- o Cael golwg ar y grannog – lle'r oedd cartrefi hynafol ar y llyn - sydd wedi'i hailadeiladu o'r newydd. Roedd y gwreiddiol o gyfnod yr Oesoedd Tywyll ac yno roedd palas Brychan, Arglwydd Brycheiniog, tarddiad enw'r parc.
- o Mynd ar y daith gerdded gylchog, egniol, 12 milltir sy'n cychwyn o Gomin Llangors. Daeth y llwybr, delfrydol i'r teulu, yn boblogaidd drwy'r achlysur cerdded blynyddol 'Bwlch with Altitude' gyda'i olygfeydd panoramig o'r llyn.

CLIWIAU CNAU

Cadwch lygad hefyd am arwyddion o lygod bach sydd wrth eu bodd yn cnoi cnau cyll mewn ffordd arbennig iawn.

Mae'r **pathew** yn gadael ymyl fewnol esmwyth gydag ôl dannedd ar ongl i'r twll ar wyneb y gneuen. Mae rhain yn edrych ychydig yn debyg i glociau.

Mae **llygoden y maes** yn gadael ôl dannedd ar yr ymyl fewnol, a hefyd ar yr wyneb, o gwmpas ymyl y twll.

Mae **llygod y gwair** yn gadael ôl dannedd ar ymyl fewnol y gneuen ond nid yw'n gadael unrhyw farc ar yr wyneb o gwmpas ymyl y twll.



Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Lleoliadau Bywyd Gwyllt

1. Llyn Llangors
2. Cuddfan adar Llangasty Tal-y-llyn
3. Canolfan ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
4. Promenâd Aberhonddu
5. Cuddfan Adar Cronfa Ddw'r Talybont



Moths: Keith Noble
Starlings: Drew Buckley